



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg

Dogfen gyngor arferion da

Cyhoeddir yn unol ag adran 4(2)(j) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
Dyddiad: 10 Mawrth 2026

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu dull rhagweithiol o 'gyd-reoleiddio' er mwyn sicrhau bod y gwaith o reoleiddio cydymffurfiaeth yn cael ei osod yng nghyd-destun y weledigaeth genedlaethol o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd yr iaith. Yn unol â hyn, rydym wedi datblygu deilliannau rheoleiddio gyda'r bwriad eu bod yn cynrychioli nodau ac amcanion cyffredin Comisiynydd y Gymraeg, sefydliadau cyhoeddus a defnyddwyr y Gymraeg, a'n bod ni i gyd yn eu perchnogi.



Deilliant 1: Sefydliadau â'r capasiti i ddarparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel ar bob achlysur



Deilliant 2: Defnyddwyr y Gymraeg yn deall ac yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt



Deilliant 3: Sefydliadau'n rhoi sylw dyladwy i effeithiau posibl eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg



Deilliant 4: Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd



Deilliant 5: Sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg, fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd



Deilliant 6: Sefydliadau â threfniadau llywodraethu a chwynion effeithiol sy'n sicrhau bod buddiannau defnyddwyr y Gymraeg yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo





Mae gennym gyfres o ddogfennau cyngor arferion da sy'n cynnig syniadau ymarferol ynghylch sut i fynd ati i gwrdd â gofynion safonau'r Gymraeg ac ar hyrwyddo defnydd o'r iaith.

Er bod y cyngor hwn wedi'i seilio ar safonau'r Gymraeg, gall sefydliadau sy'n gweithredu cynlluniau iaith gymhwyso'r egwyddorion a'r enghreifftiau i'w hamgylchiadau eu hunain. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i bob sefydliad cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru, ac anogir sefydliadau i fabwysiadu'r arferion da yma wrth gynnig a hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg.

Dogfen arweiniol i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg a chynnig cymorth ymarferol ar eu cyflwyno yw hon. Rydym yn annog sefydliadau i ystyried cynnwys y ddogfen wrth weithredu'r safonau; fodd bynnag, nid yw'r cyngor yn eich rhwymo'n gyfreithiol. Nid yw'r ddogfen hon yn cynnig cyngor cyfreithiol y gellid dibynnu arno, nac yn gòd ymarfer statudol, ac felly nid yw'n ofynnol cyfeirio ati wrth ddehongli'r safonau.

Dylid nodi bod cynnwys codau ymarfer statudol y Comisiynydd ar safonau'r Gymraeg yn cymryd blaenoriaeth dros y cyngor hwn.

Cynnwys

1	Cefndir	3
2	Dylunio gwasanaethau i wneud pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg	7
3	Rhoi gwybod am wasanaethau Cymraeg	16
4	Dysgu am ymddygiad defnyddwyr	28

Rhestr wirio

Mae'r syniadau a'r arferion yn y cyngor yn cael eu crynhoi yn y rhestr wirio hon. Cofiwch fod rhai o'r pwyntiau isod yn ofynion yn y safonau, ac eraill yn arferion da.

Cam	Ar waith?
Dylunio gwasanaethau	
Ystyried pa wasanaethau y gellir eu cynnig yn Gymraeg yn ddiofyn	
Rhoi cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg (pan nad yw'r gwasanaeth yn Gymraeg yn ddiofyn)	
Cynnwys logo neu neges gadarnhaol wrth roi dewis iaith, er mwyn rhoi hwb i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	
Cyfarch yn Gymraeg bob tro	
Sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ym mhob amgylchedd darparu gwasanaeth	
Sicrhau bod arddull a themau yn gwneud y Gymraeg yn hawdd i'w deall, drwy: - o adolygu deunyddiau a'u profi gyda defnyddwyr - o cymell drafftio dwyieithog.	
Cynnig deunyddiau'n ddwyieithog os oes modd	
Hyfforddi staff sut i ymddwyn mewn ffordd sy'n annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg	
Bod yn gynhwysol gan gynllunio gwasanaethau gyda'r Gymraeg yn rhan ganolog o'r gwaith cynllunio gwasanaethau	
Rhoi gwybod am wasanaethau Cymraeg	
Gwybodaeth am wasanaethau Cymraeg eich sefydliad ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.	
Cydymffurfio â'r gofynion i hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg, a'i hysbysebu yn Gymraeg	
Cydymffurfio â'r gofynion i nodi bod unrhyw wasanaeth Saesneg sy'n cael ei hyrwyddo, hefyd ar gael yn Gymraeg	
Cydymffurfio â'r gofynion penodol i roi gwybod bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys: - o datganiad mewn gohebiaeth yn gwahodd cyswllt yn Gymraeg - o hysbysu pobl ar ddechrau galwadau ffôn / mewn negeseuon peiriant ateb y gallant ddefnyddio'r Gymraeg	

- o nodi'n glir fod tudalennau gwe ar gael yn Gymraeg - o datgan bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth hysbysebu cyfarfodydd - o datgan fod fersiwn Cymraeg ar gael o ddogfennau a ffurflenni - o arddangos arwyddion a bathodynau laith Gwaith mewn derbynfeydd.	
--	--

Defnyddio nwyddau laith Gwaith	
Archebu nwyddau laith Gwaith o wefan Comisiynydd y Gymraeg neu wrth y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Cenedlaethol	
Sicrhau bod cyflenwad digonol o nwyddau, posteri, bathodynau a cortyn gwddf laith Gwaith ar gael i staff	
Cynnal ymgyrch gyffredinol i hybu a hyrwyddo holl wasanaethau Cymraeg y sefydliad	
Gwneud gwaith hyrwyddo trylwyr ar gyfer gwasanaethau penodol allweddol	
Adnabod cynulleidfaoedd penodol i'w targedu ar gyfer hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad	
Dysgu am ymddygiad defnyddwyr	
Casglu data lleol ynghylch defnydd o wasanaethau Cymraeg	
Monitro unrhyw newid yn y data defnydd wrth newid dyluniad y gwasanaeth neu ei hyrwyddo mewn ffordd wahanol	
Gosod targedau penodol cyraeddadwy ar gyfer cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg	
Gwneud gwaith ymchwil lleol i arferion ac anghenion defnyddwyr, er enghraifft: - o grwpiau trafod - o chwarae rôl - o arsylwi - o cwestiynau uniongyrchol - o arolwg defnyddwyr - o ymchwil meintiol.	

1 Cefndir

Beth yw hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg?


- 1.1 Mae hybu defnydd o wasanaethau Cymraeg yn cyfeirio at unrhyw gamau neu ymdrechion a wneir gan sefydliadau i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Mae'r cyngor hwn yn canolbwyntio ar ddylunio gwasanaethau, codi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr, a gosod targedau priodol ynghyd â chasglu a defnyddio data.
- 1.2 Nid yw hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg yn ddibynnol ar y defnydd ohonynt, ond gall cynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny gryfhau'r hawliau hyn yn ymarferol, drwy alluogi sefydliadau i fuddsoddi mwy yn eu darpariaeth Gymraeg a'i datblygu ymhellach.
- 1.3 Mae "cynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg" yn un o nodau strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn dweud bod angen:
 - o Marchnata deallus
 - o Dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer
 - o Deall beth fyddai'n annog mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- 1.4 Yn yr un modd, mae "hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg" yn un o amcanion safonau'r Gymraeg. At hynny, mae ein deilliannau rheoleiddio yn nodi'r disgwyliad y bydd sefydliadau'n hyrwyddo'r Gymraeg fel y gall pobl ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau bob dydd.
- 1.5 Nod a bwriad y ddogfen hon yw rhoi canllaw ac arweiniad ymarferol ar sut y gall eich sefydliad hyrwyddo a hybu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, fel bod mwy o ddefnyddwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn ac yn ei defnyddio bob dydd. Bydd y ddogfen yn cynnig nifer o argymhellion ac yn cynnwys enghreifftiau o arfer da, gan ddangos sut y mae sefydliadau wedi arloesi i greu gwasanaethau hygyrch, effeithiol a llwyddiannus, lle mae'r Gymraeg yn rhan ganolog o'r ddarpariaeth.

Pam mae angen hybu defnydd?


- 1.6 Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth sydd ar gael am faint o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gyfyngedig ac yn ddarniog. Nid oes dyletswydd ar sefydliadau i gasglu na chyhoeddi'r data hwn. Fodd bynnag, ceir argraff gyson nad yw'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cyfateb â'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg.
- 1.7 Ers blynyddoedd, rydym wedi gofyn drwy arolygon barn ym mha iaith y byddai pobl yn hoffi ei defnyddio wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus, er mwyn deall yn well ddewisiadau ieithyddol defnyddwyr gwasanaethau.

- 1.8 Dangosodd ein harolwg diweddaraf (2025) fod bwlch sylweddol rhwng pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd a pha mor aml y byddent yn dymuno eu defnyddio. Roedd canran uwch o ymatebwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn amlach nag yr oeddent yn ei wneud ar hyn o bryd wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

Wrth feddwl am y flwyddyn ddiwethaf, pa iaith ydych chi wedi'i defnyddio gan amlaf yn y sefyllfaoedd canlynol?



Wrth feddwl am y flwyddyn ddiwethaf, pa iaith ydych chi wedi'i defnyddio amlaf yn y sefyllfaoedd canlynol? / Pa iaith fyddai'n well gennych ei defnyddio yn y sefyllfaoedd canlynol?



Beth sy'n dylanwadu ar yr iaith mae pobl yn ei defnyddio?

- 1.9 Mae ymddygiad defnyddwyr yn gymhleth – wedi ei seilio ar oes o ragdybiaethau a phrofiadau blaenorol, ac yn dilyn patrymau seicolegol sy'n anodd eu newid.
- 1.10 Cesglir mai'r hyn sydd ei angen ar siaradwyr Cymraeg er mwyn newid eu patrymau defnydd yw:
 - sicrwydd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael

- o gwasanaeth Cymraeg sydd o leiaf yr un mor hawdd, cyflym a didrafferth â'r gwasanaeth Saesneg
 - o cychwyn y cyswllt yn Gymraeg yn ddiofyn, neu roi cynnig rhagweithiol
 - o sicrwydd na fydd defnyddio'r Gymraeg yn eu rhoi dan unrhyw anfantais o ran canlyniad neu gyflymder y broses
 - o iaith hawdd ei deall.
- 1.11 Dangosodd ein arolwg eleni y byddai 81% o'r ymatebwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau'n ei gwneud yn glir bod y gwasanaethau hynny ar gael drwy ddulliau megis cyfarch neu gychwyn sgwrs yn Gymraeg neu drwy sicrhau bod y Gymraeg i'w gweld yn glir mewn mannau cyhoeddus.
- 1.12 Yn yr un modd, roedd dros 82% yn cytuno eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os ydynt ar gael yn rhwydd ac yn ddi-rwystr.
- 1.13 Mae'r cynigion yn y cyngor hwn yn seiliedig ar:
- o ein gwaith ymchwil amrywiol ni – drwy gynnal arolwg barn, cysgodi defnyddwyr, a grwpiau trafod, rydym wedi gweld bod siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os ydynt yn credu y bydd hynny'n arwain at unrhyw oedi, annifyrrwch neu drafferth ychwanegol
 - o theori ymddygiadol – mae'r fframwaith [MINDSPACE: Influencing behaviour through public policy](#), a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a'r Institute for Government yn 2010, yn crynhoi'r dylanwadau mwyaf cyffredin ar benderfyniadau, ac mae atodiad 1 i'r ddogfen gyngor hon yn dangos sut gellir cymhwyso'r fframwaith i hybu gwasanaethau Cymraeg.
 - o Ansawdd y profiad – os yw'r gwasanaeth Cymraeg yn llawn, cywir ac yn gyflym, mae pobl yn fwy tebygol o'i ddefnyddio.
 - o Hygyrchedd digidol – os yw'r opsiwn Cymraeg yn hawdd ei weld ar wefan neu ap, mae'n cynyddu'r defnydd.
 - o Normau cymdeithasol – os yw pobl yn gweld eraill yn defnyddio'r Gymraeg, maent yn fwy tebygol o wneud yr un peth.
 - o Hyder personol – gall diffyg hyder yn eu sgiliau iaith atal defnydd, hyd yn oed os yw'r gwasanaeth ar gael.

2 Dylunio gwasanaethau i wneud pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg

- 2.1 Mae defnyddwyr yn dueddol o ddilyn y norm, a derbyn y dewis diofyn. Oherwydd hynny, dylai sefydliadau ddylunio'u gwasanaethau fel nad oes angen gwneud unrhyw ymdrech neu benderfyniad ychwanegol er mwyn defnyddio'r Gymraeg.

"Mae'n rili rili pwysig cael gwybod bod rhywbeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Fi'n bersonol y math o berson swni fyth yn gofyn. Os san nhw'n cynnig o'n Susneg, sw'n i'n cymryd yn ganiataol mai Susneg ydi o felly."

"Dwi'n teimlo'n niwsans wrth orfod gofyn am wasanaeth Cymraeg."

"Dwi ddim yn hoffi gwneud ffys, dwi'n dueddol o jyst derbyn beth sy'n cael ei gynnig i fi."

"Dwi'm yn meddwl 'mod i wedi ystyried bod gen i hawl i ofyn am newid i rywun Cymraeg, a mae'n siŵr 'mod i ddim isio ypsetio pobol."

Sylwadau mewn grwpiau trafod

Darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn ddiofyn

- 2.2 Golyga hyn fod y gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnig yn awtomatig fel y dewis cyntaf, heb i'r defnyddiwr orfod gofyn amdano.
- 2.3 Dylai sefydliadau ystyried pa wasanaethau y gellir eu darparu yn Gymraeg yn y lle cyntaf, fel nad oes angen i'r defnyddiwr wneud unrhyw ddewis i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.4 Enghreifftiau o sut y gall hyn weithio:
- **Gwefannau** - pan fydd rhywun yn ymweld â gwefan, dylai'r dudalen Gymraeg ymddangos yn gyntaf, gyda'r opsiwn i newid i Saesneg os oes angen.
 - **Peiriannau hunanwasanaeth** - dylai'r sgrin gychwyn yn Gymraeg, gyda'r opsiwn i newid iaith.


- **Ffôn a derbynfa** - dylai'r aelod staff sy'n ateb yr alwad neu'n cyfarch y defnyddiwr ddechrau'r sgwrs yn Gymraeg.
- **Gohebiaeth a dogfennau** - dylid cynhyrchu ac anfon dogfennau yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan sicrhau bod y Gymraeg o leiaf yr un mor amlwg â'r Saesneg.
- **Apiau symudol** - gosod yr iaith ddiofyn yn Gymraeg ar apiau gwasanaeth cyhoeddus gyda'r opsiwn i newid iaith.
- **Ffurflenni ar-lein** - dangos y fersiwn Gymraeg yn gyntaf, gyda botwm amlwg i newid iaith.
- **Hysbysiadau a negeseuon testun** - anfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog fel arfer.

Cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg

2.5 Os nad yw'r gwasanaeth yn Gymraeg yn ddiofyn, dylech ofyn i ddefnyddwyr cyn dechrau'r broses a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg. Dyma sut y gall hyn weithio gyda gwahanol wasanaethau:

- **Gwefannau** - dangos tudalen neu ffenestr 'pop-up' bob tro mae rhywun yn ymweld â'r wefan, gan gynnig y dewis i fynd i'r fersiwn Gymraeg.

Canolfan Mileniwm Cymru



- **Peiriannau hunanwasanaeth** - sgrin gychwynnol yn gofyn pa iaith y mae'r defnyddiwr am ei defnyddio (Cymraeg neu Saesneg).
- **Ffôn** - defnyddio system awtomatig, e.e. "Arhoswch ar y lein i siarad Cymraeg/Am wasanaeth Cymraeg" neu "Pwyso 1 i siarad Saesneg".

- **Gohebiaeth** - cysylltu â defnyddwyr i wirio eu dewis iaith cyn anfon llythyrau neu e-byst.
- **Apiau symudol** - pan fydd defnyddiwr yn agor ap, dangos neges groeso sy'n cynnig y Gymraeg yn glir.
- **Siarad wyneb yn wyneb** - hyfforddi staff i ofyn yn rhagweithiol: "Hoffech chi barhau yn Gymraeg?"



- **Negeseuon testun neu e-byst awtomatig** - cynnwys opsiwn amlwg i newid iaith ar gyfer cyfathrebiadau yn y dyfodol.
- 2.6 Gallai fod yn fuddiol rhoi cyfle i bobl newid i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod cyswllt wrth ddefnyddio eich gwasanaethau.
- 2.7 Gallwch annog pobl i ddewis y Gymraeg drwy ychwanegu elfennau sy'n gwneud y dewis yn fwy deniadol ac yn rhoi sicrwydd. Dyma rai syniadau:
- **Defnyddio logo iaith gwaith** er mwyn amlygu gwasanaeth Cymraeg:



- **Dangos tystiolaeth o ddefnydd** – nodi bod nifer cynyddol o bobl yn defnyddio'r Gymraeg. Gorau oll os yw'r data'n benodol ac yn berthnasol:

"Mae dros 6000 o bobl wedi defnyddio'r gwasanaethau yma yn Gymraeg, beth am i chi roi tro arni?!"

- **Rhoi sicrwydd am ansawdd y gwasanaeth** – gwneud yn glir na fydd defnyddio'r Gymraeg yn achosi oedi na thriniaeth lai ffafriol:

"Cymraeg – gwasanaeth cyflym a didrafferth."

- **Defnyddio negeseuon cadarnhaol, syml** – peidio â defnyddio iaith gymhleth na negeseuon sy'n beirniadu pobl am beidio â defnyddio'r Gymraeg. Negeseuon fel:

*"Rhowch gynnig ar y Gymraeg heddiw!"
"Mae'n hawdd defnyddio'r Gymraeg gyda ni."*

- **Defnyddio geiriau sy'n creu ymdeimlad o falchder neu gymuned:**
"Ymunwch â'r miloedd sy'n defnyddio'r Gymraeg gyda ni."
- **Cynnig buddion ychwanegol:** e.e. mynediad at gynnwys unigryw neu wybodaeth ychwanegol pan ddewisir y Gymraeg.
- **Defnyddio enghreifftiau lleol:**

"Yn Aberystwyth, mae 70% o'n cwsmeriaid yn defnyddio'r Gymraeg."

Cyfarch yn Gymraeg

- 2.8 Mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o sefydliadau gyfarch pobl yn Gymraeg wrth ateb galwadau ffôn – ar y prif rif, ac ar linellau uniongyrchol. Mae defnyddwyr wedi dweud wrthym fod cael eu cyfarch yn Gymraeg yn bwysig er mwyn sefydlu'r cyddestun ieithyddol ar gyfer yr alwad.

“Os nad ydw i’n cael fy nghyfarch yn Gymraeg, dwi’n cymryd nad ydi’r gwasanaeth Cymraeg ar gael.”

Sylw mewn grŵp trafod

- 2.9 Mae’r gofyniad i gyfarch yn Gymraeg fel arfer yn berthnasol i linellau uniongyrchol staff sydd ddim yn siarad Cymraeg, yn ogystal â’r staff hynny sy’n darparu gwasanaeth Cymraeg llawn.

Amgylchedd darparu gwasanaeth

- 2.10 Mae’r amgylchedd lle mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn dylanwadu’n fawr ar ymddygiad pobl. Mae pobl yn cymryd cliwiau gweledol ac ymarferol i benderfynu a yw’r sefydliad yn debygol o gynnig gwasanaeth Cymraeg. Dyma rai enghreifftiau:

- o **laith sgwrs staff** - os yw staff yn siarad Cymraeg gyda’i gilydd, mae’n rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac yn ei hannog i’w defnyddio.
- o **Arwyddion a phosteri** - defnyddio’r Gymraeg yn amlwg mewn mannau cyhoeddus ac arddangos logo laith Gwaith er mwyn creu awyrgylch ac ethos Gymreig.



- o **laith cerddoriaeth** – mae’r defnydd o gerddoriaeth Gymraeg mewn derbynfeydd neu tra bod galwad ffôn mewn ciw yn creu’r ethos Gymreig ac yn darbwyllo siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio’r gwasanaeth yn Gymraeg.

- **Bathodynnau neu cardiau enw** - dangos iaith y staff yn glir, e.e. “Siarad Cymraeg” neu ddefnyddio’r logo iaith Gwaith ar fathodyn/cortyn gwddf.
- **Negeseuon ar sgriniau digidol** - e.e. sgriniau derbynfa neu hysbysfyrddau yn dangos negeseuon Cymraeg.
- **Negeseuon croeso** - e.e. “*Croeso - gallwch ddefnyddio’r Gymraeg gyda ni*” ar dderbynfa neu mewn e-byst cadarnhau apwyntiad.
- **Sain neu gyhoeddiadau cyhoeddus** - defnyddio’r Gymraeg yn gyntaf mewn cyhoeddiadau mewn manau cyhoeddus.

2.11 Mae’r [fideo yma’n dangos](#) sut mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i wneud y Gymraeg yn weladwy yn ei phrif dderbynfa.

2.12 Gallwch greu cyd-destun sy’n annog pobl i ddefnyddio’r Gymraeg drwy roi sylw i ba mor weladwy a chlywadwy yw’r Gymraeg i ddefnyddwyr. Gall hyn gynnwys arddangos deunyddiau sy’n tynnu sylw at wasanaethau Cymraeg, fel y mae adran 3 yn sôn.

Defnyddio iaith ddealladwy

2.13 Mae defnyddwyr yn dweud wrthym ni’n aml fod yr arddull a’r termau y mae sefydliadau’n eu defnyddio’n gwneud y Gymraeg yn fwy anodd i’w deall na’r Saesneg. Mae pobl mewn grwpiau trafod wedi sôn am ieithwedd “ffurfiol” a “stiff”, ac am y defnydd o “eiriau cymhleth”.

2.14 Mae angen defnyddio iaith mor glir a syml â phosib. Dulliau o wneud hyn yw:

- defnyddio brawddegau byrrach, yn hytrach na brawddegau hir gyda nifer o gymalau, a defnyddio penawdau a phwyntiau bwled yn hytrach na pharagraffau hir:

Byddai bwrw ymlaen â’r prosiect hwn, sy’n ddibynnol ar gymeradwyaeth yr UDRh (y cynhelir y cyfarfod nesaf ohono – fel y rhagwelir ar hyn o bryd – ar XX/XX/202X), yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi, yn ogystal â chreu cyfleoedd cyflogaeth, gyda’r nod o leihau allyriadau carbon.

Effaith

Byddai’r prosiect hwn yn:

- cryfhau’r economi
- creu swyddi
- defnyddio llai o garbon.

Camau nesaf

Bydd yr uwch dim rheoli’n cwrdd ar XX/XX/202X i benderfynu a fydd yn bwrw ymlaen â’r prosiect.

- defnyddio berfau gweithredol yn lle rhai goddefol

Asesir y cais gennym

Byddwn yn asesu’r cais

- o cael gwared ar jargon ac acronyms diangen

Mae'r angen am gymeradwyaeth yr UDRh yn amser-gritigol

Mae angen i'r uwch dim rheoli basio'r cynnig yn fuan

- o defnyddio 'chi' a 'ni'

Dylai ymgeiswyr ddychwelyd eu ffurflenni cais at y sefydliad erbyn XX/XX/202X

Anfonwch eich ffurflen gais atom erbyn XX/XX/202X

2.15 Gall fod yn help cymell mwy o staff sy'n siarad Cymraeg i ddrafftio'u gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg yn gyntaf, neu'n ddwyieithog. Gall hyn leihau'r risg o gyfieithu'n slafaid a llythrennol. Mae arweiniad ynghylch hyn yn ein [canllaw ar ddrafftio dwyieithog](#).

2.16 Mae profi gyda defnyddwyr hefyd yn ffordd effeithiol o sicrhau bod iaith yn glir ac yn hawdd ei deall. Mae rhai sefydliadau wedi gwneud hyn yn llwyddiannus drwy wrando ar adborth a mireinio termau.

Enghreifftiau o arferion da:

- o **Ysgrifennu triawd** - Mae [ysgrifennu triawd](#) yn cynnig ffordd o gydweithio i ddatblygu cynnwys mewn dwy iaith gyda'r nod o sicrhau bod y cynnwys o'r un safon ac yr un mor naturiol yn y ddwy iaith. Mae'n ddull sydd yn cynnwys y cyfieithydd yn y broses o ddatblygu cynnyrch o'r cychwyn cyntaf. ychwanegu trydydd person i'w gynhyrchu'n ddwyieithog. Mae mwy o wybodaeth am hyn i'w ganfod yn ein [astudiaeth achos](#).
- o **Asiantaeth Safonau Bwyd** - mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi datblygu a mireinio geirfa o dermau diogelwch bwyd, sydd bellach wedi ei safoni'n allanol a'i hychwanegu at y Porth Termau Cenedlaethol. Bydd yn cael ei ychwanegu at y wefan maes o law, ac mae'r Asiantaeth wedi ymrwymo i barhau i fireinio'r derminoleg er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n ddefnyddiol i'r bobl sy'n defnyddio'r termau o ddydd i ddydd
- o **Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (HMCTS)** - fel rhan o'i waith i ddigideiddio ffurflenni ar gyfer prosesau cyfreithiol fel ysgariad, aeth y Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ati i gynnal sesiynau profi gyda defnyddwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod geiriad y ffurflenni'n ddealladwy i bobl gyffredin, a newidir sawl term a brawddeg yn y ffurflenni o ganlyniad i'r adborth. Er enghraifft, defnyddir 'cael perthynas y tu allan i briodas' yn lle'r term hen ffasiwn 'godinebu'.

- **Defnyddio [BydTermCymru](#)** - ar gyfer pob dogfen swyddogol, er mwyn osgoi amrywiadau neu gamgymeriadau mewn terminoleg.
- **Profi negeseuon ar wefannau ac apiau** - cyn lansio, gofyn i ddefnyddwyr Cymraeg roi adborth ar eglurder a naturioldeb y wefan neu'r ap.
- **Creu panel defnyddwyr Cymraeg** - i adolygu dogfennau a ffurflenni newydd.
- Defnyddio adnoddau fel **Cysgliad neu Ap Geiriaduron** - i sicrhau cywirdeb iaith wrth ddrafftio. Ceir mwy o fanylion ar y ddarpariaeth a'r adnoddau sydd ar gael ar wefan Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor
<https://www.cysgliad.com/cy/>

Gweithredu'n ddwyieithog os oes modd

- 2.17 Mae defnyddwyr yn dweud wrthym ni eu bod yn awyddus i ddefnyddio deunyddiau Cymraeg ond eisiau gallu gwirio'u bod wedi deall yn iawn drwy gyfeirio at y fersiwn Saesneg.
- 2.18 Yn ogystal â rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr, gall deunyddiau dwyieithog hefyd gynyddu amlygrwydd y Gymraeg, a chymell pobl a fyddai fel arall yn defnyddio'r Saesneg i roi tro ar ddefnyddio'r Gymraeg.
- 2.19 Wrth gwrs, ni fydd pob math o ddeunyddiau, fel dogfennau hirach, yn addas i'w cynhyrchu'n ddwyieithog. Gyda gwefannau, gellir defnyddio'r togl iaith i fynd yn ôl ac ymlaen rhwng tudalennau Cymraeg a Saesneg. Rhai deunyddiau sy'n gweithio'n well yn ddwyieithog yn hytrach na gyda'r ieithoedd ar wahân yw:
 - ffurflenni
 - posterï
 - taflenni
 - llythyrau.
- 2.20 Mae anfon gwybodaeth safonol at ddefnyddwyr yn ddwyieithog yn ffordd o arbed costau ac ymdrech drwy beidio â gorfod sefydlu dewis iaith bob tro. Er enghraifft, mae rhai byrddau iechyd yn anfon gohebiaeth fel llythyrau apwyntiadau'n ddwyieithog fel mater o drefn.
- 2.21 Mae ein [canllaw dylunio dwyieithog](#) yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut i gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg mewn deunyddiau.

Hyfforddi staff

- 2.22 Er bod systemau a phrosesau'n bwysig, mae staff yn wyneb cyhoeddus pob sefydliad ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr iaith y bydd pobl yn ei defnyddio.

Mae hyfforddiant da yn allweddol i sicrhau bod staff yn annog defnydd o'r Gymraeg yn hyderus ac yn naturiol.

Pam mae hyn yn bwysig?

- o Mae profiad personol y defnyddiwr yn cael ei siapio gan sut mae staff yn cyfarch ac yn ymateb.
- o Gall ymddygiad cadarnhaol staff wneud i'r Gymraeg deimlo'n ddewis hawdd ac arferol.

Elfennau i'w cynnwys mewn hyfforddiant:

Cyfarch a chynnig gwasanaeth Cymraeg	Sut i ddechrau sgwrs yn Gymraeg, a sut i gynnig y Gymraeg yn ddiofyn neu'n rhagweithiol.
Cefnogi defnyddwyr os nad yw'r staff yn siarad Cymraeg	Cynnig ac arweiniad a chanllaw i staff ar drefniadau lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael e.e. trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr Cymraeg neu ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu.
Hwyluso defnydd gan grwpiau penodol	Dysgwyr, pobl ag anghenion iaith symlach, neu ddefnyddwyr digidol.
Defnyddio adnoddau swyddogol	Darparu adnoddau gwirio sillafu i staff a darparu hyfforddiant ar ddefnyddio Banc Termau Cymru (TermCymru) i sicrhau cysondeb iaith ar ffurflenni, gohebiaeth a systemau
Defnyddio logo iaith Gwaith	Sicrhau bod staff yn gwybod sut i ddefnyddio'r logo iaith Gwaith e.e. ar fathodynau enw neu e-byst
Sesiynau chwarae rôl	Cyfleoedd i ymarfer sefyllfaoedd go iawn, e.e. derbyn galwad ffôn neu groesawu ymwelwyr.
Ymwybyddiaeth iaith	Darparu hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth iaith neu ddefnyddio adnoddau digidol a modiwlau e-ddysgu
Mentora mewnol	Defnyddio staff profiadol i gefnogi eraill i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

3 Rhoi gwybod am wasanaethau Cymraeg

- 3.1 Mae defnyddwyr wedi dweud wrthym eu bod yn awyddus i weld gwasanaethau Cymraeg yn cael eu dathlu a'u hyrwyddo'n fwy amlwg gan sefydliadau ar draws Cymru.

"Pan mae 'na ryw fath o ddigwyddiad yn y coleg mae pawb yn gwybod amdano achos mae posteri ym mhob man. Dyle bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu hyrwyddo yr un mor amlwg."

"Dwi'n credu bod angen dathlu'r gwasanaethau sydd bellach ar gael yn Gymraeg a rhannu llwyddiannau."

Sylwadau mewn grwpiau trafod

- 3.2 Mae ymchwil rydym wedi ei gomisiynu yn dangos bod 81% o ymatebwyr i arolwg barn yn dweud eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg os yw sefydliadau'n gwneud yn glir eu bod ar gael. Amlyga hyn y potensial i sefydliadau gynyddu defnydd drwy godi ymwybyddiaeth. Gellir gwneud hyn yn effeithiol drwy:

Gwefannau

- o Creu adran benodol ar wefan y sefydliad sy'n hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, gyda gwybodaeth glir am sut i'w defnyddio.
- o Defnyddio'r dudalen [Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg](#) ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Dyma dudalen arbennig sy'n hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru.

Cyfryngau cymdeithasol

- o Sicrhau bod holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y sefydliad ar gael yn Gymraeg ac nad yw'r cynnwys Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- o Cynnwys dolen o gyfrif Saesneg i'r cyfrif cyfatebol Cymraeg.
- o Postio negeseuon cadarnhaol am wasanaethau Cymraeg, gan ddefnyddio hashnodau perthnasol (#DefnyddiadyGymraeg).
- o Rhannu straeon llwyddiant neu brofiadau defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Negeseuon awtomatig

- o Ychwanegu llinell syml i e-byst neu negeseuon testun: "*Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg gyda ni.*"

Arwyddion a phosteri

- Dangos logo laith Gwaith mewn derbynfeydd, ar ddesgiau gwasanaeth a bathodynnau staff.
- Defnyddio arwyddion dwyieithog amlwg mewn mannau cyhoeddus.

Dogfennau a gohebiaeth

- Sicrhau bod unrhyw ddeunydd ysgrifenedig yn dangos yn glir bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'r sefydliad.

"Gallwch lenwi'r ffurflen hon yn Gymraeg."

Safonau perthnasol – rhoi gwybod am wasanaethau Cymraeg

- 3.3 Mae safon sy'n ei gwneud yn ofynnol ar sefydliadau i hybu a hysbysebu'r holl wasanaethau Cymraeg a gynigir:

Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Safonau'r Gymraeg

- 3.4 Mae'n ofynnol hysbysu pobl fod gwasanaethau Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg. Mae'r safon sy'n ymwneud â hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth, dim ots a oes safon benodol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth hwnnw:

Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

Safonau'r Gymraeg

- 3.5 Ochr yn ochr â hynny, mae nifer o safonau sy'n nodi sefyllfaoedd penodol lle mae angen rhoi gwybod fod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg. Dylech wirio'ch hysbysiad cydymffurfio i weld pa safonau'n union sy'n berthnasol i chi. Yn y tabl isod, mae rhai enghreifftiau o ofynion, ac awgrymiadau ynghylch sut i fynd ati.
- 3.6 Fel gydag unrhyw ymdrechion eraill i hybu gwasanaethau Cymraeg, dylai'r negeseuon a ddefnyddir fod yn syml, cadarnhaol ac atyniadol.
- 3.7 Os oes gennych frand penodol ar gyfer hybu gwasanaethau Cymraeg, gellir defnyddio'r brand neu slogan gysylltiedig ar y pwynt pan fo'r gwasanaeth yn cael ei gynnig.
- 3.8 Gallwch ddefnyddio logo laith Gwaith mewn deunyddiau ac ar wefannau hefyd.
- 3.9 Dyma awgrymiadau am sut i fynd ati i gydymffurfio â rhai o'r gofynion i hyrwyddo gwasanaethau. (Mae gofynion tebyg yn berthnasol i geisiadau grant, tendro am gontractau, a cheisiadau swydd hefyd.)

Gofynion hyrwyddo	Sut i fynd ati
Cynnwys datganiad yn croesawu gohebiaeth Gymraeg, ac yn nodi na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi, mewn gohebiaeth ac mewn deunyddiau sy'n gwahodd gohebiaeth	Datganiad mewn lle amlwg ar ohebiaeth a deunyddiau perthnasol, gan gynnwys yn llofnod pob e-bost – mae'r gofyniad yn berthnasol i bob darn o ohebiaeth. Enghraifft o ddatganiad: <i>“Mae croeso i chi ohebu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ateb yn Gymraeg ac yn sicrhau nad yw gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.”</i>
Rhoi gwybod i bobl sy'n ffonio prif rif ffôn / llinell gymorth / canolfan alwadau fod modd cael gwasanaeth Cymraeg	Dylai hyn ddigwydd ar y cyfle cyntaf posib. Os ydych yn defnyddio dull awtomatig o ateb y ffôn, neu'n chwarae gwybodaeth wedi ei recordio wrth i bobl ddisgwyl i'w galwad gael ei hateb, gallwch chwarae neges yn rhoi gwybod am y gwasanaeth Cymraeg bryd hynny. Fel arall bydd angen i'r sawl sy'n ateb y ffôn roi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Gellir gwneud hynny drwy ddatganiad penodol, neu drwy gychwyn y sgwrs yn Gymraeg
Rhoi gwybod bod modd gadael neges Gymraeg ar beiriant ateb	Neges wedi ei recordio'n cynnwys datganiad, e.e. <i>“Gallwch adael neges yn Gymraeg. Byddwn yn sicrhau na fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.”</i>

Nodi'n glir ar dudalennau gwe Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol	Botwm i newid iaith mewn lle amlwg ar y wefan Datganiad neu hysbyseb yn hybu'r opsiwn Cymraeg Pop-yp yn cymell ymwelwyr â'r wefan Saesneg i fynd i'r ochr Gymraeg
Datgan bod modd defnyddio'r Gymraeg wrth hysbysebu cyfarfodydd	Datganiad mewn lle amlwg ar yr agenda, gwahoddiad neu ddeunyddiau hysbysebu. Enghraifft o ddatganiad: <i>"Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Byddwn yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen."</i>
Datgan mewn dogfennau a ffurflenni Saesneg fod fersiwn Cymraeg ar gael	Datganiad mewn lle amlwg ar y ddogfen neu'r ffurflen, e.e. <i>"Fersiwn Cymraeg ar gael"</i> Os yw'r ddogfen yn un electronig, gallwch gynnwys dolen i'r fersiwn Cymraeg, e.e. <i>"Defnyddiwch y fersiwn Cymraeg yma!"</i> Ydi hi'n bosib gwneud y ddogfen / ffurflen yn ddwyieithog?
Arddangos arwydd yn croesawu defnyddio'r Gymraeg mewn derbynfeydd, a sicrhau bod staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn	Arwyddion amlwg yn datgan bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, e.e.: <i>"Croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yma!"</i> <i>"Siaradwch Gymraeg gyda staff sy'n gwisgo'r bathodyn"</i> <i>"Gwasanaeth cyflym ar gael yn Gymraeg"</i>

Iaith Gwaith

“Mae gorfod gofyn i rhywun siarad Cymraeg, a’r posibilrwydd o gael eich gwrthod, yn lletchwith. Os dwi’n gweld eu bod nhw yn gwisgo bathodyn Iaith Gwaith, wna i siarad Cymraeg yn syth.”

“Y logo ydi’r ffordd hawsa i hyrwyddo... Ma pawb yn nabod y logo.”

Sylwadau mewn grwpiau trafod

- 3.10 Ers ei sefydlu yn 2005, mae’r brand Iaith Gwaith bellach yn cael ei gydnabod fel un o’r prif ffyrdd o gyfleu bod modd defnyddio’r Gymraeg ac yn symbol sydd yn gyfarwydd i ddefnyddwyr. Mae defnyddwyr wedi dweud wrthym ni fod gweld y logo oren yn rhoi sicrwydd iddynt fod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac yn eu hannog i ddefnyddio’r Gymraeg gyda’r sefydliad.
- 3.11 Gallwch ddefnyddio logo Iaith Gwaith i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg – naill ai fel rhan o ymgyrch, neu er mwyn tynnu sylw at wasanaethau Cymraeg penodol.



- 3.12 Gallwch [archebu posteri a chortynnau gwddf am ddim drwy’w gwefan](#) neu drwy gysylltu gyda’r [Ganolfan Ddysgu Cymraeg Cenedlaethol](#). Mae deunyddiau hyrwyddo ar gael ar ein gwefan i’w lawrlwytho yno hefyd, megis neges safonol i’w chynnwys ar ohebiaeth fel yr un isod:



Ysgrifennwch ataf yn Gymraeg neu Saesneg
Please write to me in Welsh or English

- 3.13 Gallwn ddarparu trwydded i chi greu eich deunyddiau eich hunain gan ddefnyddio'r logo laith Gwaith os oes angen. Mae Heddlu Gwent wedi cyflwyno'r logo ar ffurf 'velcro' i'w staff i'w gwisgo ar ei siacedi diogelwch, ac mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi pwytho'r logo i wisg safonol staff meddygol ar draws y GIG. Mae nwyddau sy'n dynodi 'Dysgwr' gyda'r logo hefyd ar gael drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg.
- 3.14 Mae'n bwysig peidio â defnyddio'r logo os nad yw'r gwasanaeth ar gael - er enghraifft, rydym wedi clywed am staff yn gwisgo dillad gyda'r logo arnynt er nad ydynt yn siarad Cymraeg. Gall hyn danseilio hyder pobl yn y logo a'r sefydliad fel ei gilydd.

Cynllunio Ymgyrch i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

- 3.15 Gall sefydliadau fynd ati i hyrwyddo'u holl wasanaethau Cymraeg drwy un ymgyrch neu drwy nifer o ymgyrchoedd llai, ond llwyddiannus, drwy'r flwyddyn.
- 3.16 Mae'r adran isod yn cynnig arweiniad ar sut i fynd ati i gynllunio ymgyrch eich hunain i hyrwyddo rhai o'ch gwasanaethau Cymraeg. Ceir templed cynllun gweithredu hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg yn Atodiad 2.
- 3.17 **Adnabod cynulleidfaoedd**
- Gallwch ddewis targedu unrhyw ymgyrch at bobl penodol. Byddai'n ddefnyddiol gwneud ymchwil i ganfod pa fath o bobl sydd ddim yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd, ond a fyddai'n barod i wneud hynny gydag anogaeth.
- 3.18 **Llunio neges**
- Bydd sloganau effeithiol yn syml ac yn gadarnhaol, ac yn debygol o apelio at y gynulleidfa darged. Gallech ddewis pwysleisio bod:
 - ✓ gwasanaethau Cymraeg ar gael ac o ansawdd da – neu wedi gwella
 - ✓ mwy a mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg
 - ✓ defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gwneud lles i'r iaith.
- 3.19 **Defnyddio negeswyr effeithiol**
- Mae pobl yn fwy tebygol o dderbyn negeseuon allweddol os ydynt yn cael eu cyfleu gan negesydd y maent yn ymddiried ynddo. Bydd y negesydd mwyaf effeithiol yn amrywio'n unol â'r neges, er enghraifft gellid defnyddio:
 - ✓ persona corfforaethol y sefydliad, er mwyn rhoi'r argraff fod y sefydliad cyfan yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau Cymraeg

- ✓ staff sy'n darparu'r gwasanaeth Cymraeg, er mwyn rhoi sicrwydd i bobl fod staff ar gael i ddelio â nhw yn Gymraeg
- ✓ modelau rôl - naill ai rhywun adnabyddus, neu bobl gyffredin y bydd defnyddwyr yn uniaethu â nhw - er mwyn cyfleu'r neges fod defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn rhywbeth arferol a chadarnhaol i'w wneud.

3.20 Dewis dulliau cyfathrebu addas

- o Er mwyn i unrhyw ymgyrch gyrraedd cymaint o bobl â phosib, mae angen dewis dulliau addas i gyfathrebu'r neges. Gall hynny gynnwys dulliau hyrwyddo arferol, fel:
 - ✓ cyfryngau cymdeithasol
 - ✓ fideos
 - ✓ hyrwyddo mewn digwyddiadau
 - ✓ hysbysebion yn y wasg a'r cyfryngau.
- o Mae hefyd yn bosib cynnwys hysbysebion neu frand ar y deunyddiau gwasanaeth eu hunain – er enghraifft cynnwys taflen gyda llythyr at ddefnyddwyr, rhoi hysbyseb ar ffurflenni, fideos ar wefannau, neu neges gyda slogan yr ymgyrch ar wasanaeth ateb ffôn.

3.21 Bod yn rhyngweithiol

- o Mae ymchwil yn awgrymu bod ymdrechion i newid ymddygiad pobl yn fwy effeithiol os yw pobl yn ymrwmo'n ysgrifenedig neu'n gyhoeddus i wneud rhywbeth. Enghraifft o wneud hyn fyddai annog pobl i ymrwmo ar y cyfryngau cymdeithasol i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.
- o Gallwch hefyd annog pobl i rannu eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg, fel bod eraill yn gweld bod y gwasanaeth ar gael.

3.22 Er bod angen hybu pob gwasanaeth Cymraeg, gellir blaenoriaethu gwasanaethau penodol i'w hyrwyddo'n drylwyr, neu dargedu cynulleidfaoedd penodol.


3.23 Gall hyn fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer gwasanaethau lle mae potensial mawr i gynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg, neu lle byddai derbyn gwasanaethau Cymraeg yn fuddiol i ddefnyddwyr. Er enghraifft, bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cydweithio â'r Urdd yn lleol er mwyn amlygu cyfleoedd i blant gael gwersi nofio Cymraeg.

Engbreiffiaau o ymgyrchoedd hyrwyddo gwasanaethau llwyddiannus

Astudiaeth achos: Dŵr Cymru

Mae Dŵr Cymru wedi gweithredu ymgyrch gynhwysfawr i annog mwy o gwsmeriaid i gyfathrebu â'r cwmni drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gofrestru i dderbyn gohebiaeth Gymraeg. Nod y gwaith oedd gwneud y gwasanaethau Cymraeg yn fwy amlwg ac apelgar, gan sicrhau bod cwsmeriaid yn gwybod eu bod yn gallu derbyn yr un lefel o wasanaeth yn y Gymraeg ag yn Saesneg. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg drwy alwadau ffôn, e-byst, llythyrau a'r gwasanaeth sgwrsio ar-lein.

Dros gyfnod o sawl mis, cynhaliodd Dŵr Cymru ymgyrch eang ar gyfryngau cymdeithasol, gan gyhoeddi negeseuon ar bob un o'u sianeli digidol i dynnu sylw at y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.



Astudiaeth achos: Adran Gwaith a Phensiynau

Cyflwynodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ymgyrch gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau Cymraeg a sicrhau bod mwy o hawlwr yn gwybod bod modd iddynt ddelio â'r adran drwy'r Gymraeg. Eu bwriad oedd cynyddu'r niferoedd o geisiadau am Gredyd Pensiwn a Chredyd Cynhwysol yn Gymraeg. Gwnaed hyn drwy ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol.



Crëwyd dau fideo Cymraeg newydd fel rhan o'r ymgyrch Symud i UC oedd eto yn dangos sut i gyflwyno cais yn Gymraeg a chynnig sicrwydd nad oedd y broses yn un gymhleth.

[Cadwch bethau i fynd trwy Symud i Gredyd Cynhwysol \(youtube.com\)](https://www.youtube.com/watch?v=...)



Yn dilyn cynnal yr ymgyrch, gwelwyd cynnydd o 400% yn y ceisiadau a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg

Astudiaeth achos: Canolfan Mileniwm Cymru

Fe wnaeth Canolfan Mileniwm Cymru ddewis hybu defnydd o'r sgwrsfot Cymraeg a thudalennau Cymraeg eu gwefan. Eu hamcanion oedd gweld defnydd o ochr Cymraeg y wefan yn cynyddu a gweld nifer uwch o bobl yn cysylltu drwy y gwasanaeth sgwrsfot/gwe-sgwrs Cymraeg.

Yn gyntaf aethpwyd ati i gasglu data am ddefnydd o'r sgwrsfot ac ymweliadau â thudalennau Cymraeg y wefan o 2023/24 er mwyn gosod gwaelodlin ar gyfer nifer y defnyddwyr ac amllder defnydd y gwasanaeth.

Gan adnabod y sioeau a oedd yn fwy tebygol o ddenu niferoedd uwch o siaradwyr Cymraeg, hyrwyddwyd y gwasanaeth archebu tocynnau Cymraeg drwy gynnwys dolen o'r dudalen Saesneg yn annog pobl i fynd at y fersiwn Gymraeg.

[Want to continue your order in Welsh? Click here](#)

Fel rhan o'r ymgyrch postiwyd nifer o negeseuon ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Ganolfan yn annog siaradwyr Cymraeg i ddilyn cyfrif Cymraeg y Ganolfan a chrëwyd [fideo](#) i hyrwyddo'r gwasanaeth sgwrsfot Cymraeg i'w rannu ar y cyfryngau cymdeithasol.



Roedd data a gasglwyd gan y Ganolfan hefyd yn cadarnhau y bu cynnydd yn nifer y sgysiau Cymraeg ar y sgwrsfot yn ystod yr ymgyrch.

Ymgyrch ‘Defnyddia dy Gymraeg’

- 3.24 Mae “Defnyddia dy Gymraeg” yn ymgyrch genedlaethol flynyddol gan y Comisiynydd gyda’r nod o annog pobl ledled Cymru i ddefnyddio’r Gymraeg yn hyderus a naturiol ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae’r ymgyrch yn seiliedig ar weledigaeth y Comisiynydd o Gymru lle gall pawb fyw eu bywydau drwy’r Gymraeg, ac mae’n un o’r prif ffyrdd o godi ymwybyddiaeth o’r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i’r cyhoedd. Trwy hyrwyddo’r gwasanaethau hyn yn glir ac yn gyson, mae sefydliadau’n chwarae rhan allweddol wrth alluogi pobl i ddefnyddio’r iaith gyda’r hyder a’r sicrwydd sydd eu hangen.

Pam mae’r ymgyrch yn bwysig?

- 3.25 Mae gwaith rheoleiddio’r Comisiynydd yn golygu bod sefydliadau cyhoeddus yn gorfod darparu gwasanaethau Cymraeg yn unol â Safonau’r Gymraeg neu Gynlluniau Iaith. Ar yr un pryd, mae’r gwaith hybu a gynhelir gyda busnesau ac elusennau drwy’r ‘Cynnig Cymraeg’ yn sicrhau bod mwy a mwy o wasanaethau ar gael yn y sector preifat a’r trydydd sector hefyd. Fodd bynnag, nid darparu’r gwasanaethau yn unig sy’n bwysig - mae angen i siaradwyr fod yn ymwybodol o’r gwasanaethau sydd ar gael, a bod yn hyderus i ddefnyddio’i Cymraeg wrth gyrchu’r gwasanaethau yma. Dyna’n union yw nod yr ymgyrch: sicrhau bod pobl Cymru’n gwybod ble, pryd a sut y medrir defnyddio’r Gymraeg, ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny bob dydd.

Sut gall sefydliadau gymryd rhan?

- 3.26 Mae “Defnyddia dy Gymraeg” yn gyfle i bob sefydliad - boed yn sefydliad cyhoeddus, fusnes, elusen neu gwmni bach lleol - dynnu sylw at y gwasanaethau Cymraeg y maent yn eu cynnig. Drwy gymryd rhan yn yr ymgyrch, gall sefydliadau ddangos ymarfer da, annog defnydd cwsmeriaid, ac arddangos eu hymrwymiad i greu profiad digonol a chyfartal i bawb. Gall sefydliadau ddefnyddio deunyddiau’r ymgyrch, hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ar-lein ac wyneb yn wyneb, a sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o’r gwasanaethau Cymraeg a sut i’w ddarparu’n hyderus.

Effaith gadarnhaol cymryd rhan

- 3.27 Trwy gyfrannu at yr ymgyrch, gall sefydliadau ehangu ymwneud cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith, gwella profiad defnyddwyr, a chodi proffil eu gwasanaethau Cymraeg. Mae’r ymgyrch yn helpu i normaleiddio’r Gymraeg mewn mannau gwaith, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus, gan greu amgylchedd lle mae’r Gymraeg yn weladwy, hygyrch ac yn cael ei defnyddio’n naturiol. Yn y pen draw, mae cyfranogi’n rhan o fuddsoddiad ehangach yng nghymunedau Cymru ac yn cefnogi nod cenedlaethol o gynyddu defnydd dyddiol o’r iaith.

Annog defnydd bob dydd

- 3.28 Gellir defnyddio'r Gymraeg ym mhob sefyllfa - yn y gwaith, gartref, yn y siop, dros y ffôn, drwy e-bost, ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn unrhyw gyswllt â gwasanaethau. Trwy fod yn rhan o'r ymgyrch, mae sefydliadau'n galluogi ac yn annog unigolion o bob oedran a chefnidir i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt, beth bynnag fo'u hyder neu'u rhuglder. Po fwyaf y gwelir a glywir y Gymraeg, y mwyaf naturiol fydd ei defnyddio.

Galwad i weithredu

- 3.29 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda sefydliadau ledled Cymru i dynnu sylw at wasanaethau Cymraeg ac i hyrwyddo'r hyn sy'n bosibl pan fo sefydliadau'n ymrwymo'n gadarnhaol i'r iaith. Os ydych yn sefydliad sy'n darparu unrhyw fath o wasanaeth yng Nghymru, mae'r ymgyrch "Defnyddia dy Gymraeg" yn gyfle i fod yn rhan o ymdrech genedlaethol i godi ymwybyddiaeth, ehangu darpariaeth a chynyddu defnydd y Gymraeg. Trwy gymryd rhan, rydych yn cyfrannu'n uniongyrchol at sicrhau bod pobl Cymru yn gallu byw eu bywydau'n ddwyieithog ac yn hyderus.
- 3.30 Cynhelir cynhadledd flynyddol yr ymgyrch yn nhymor yr Hydref lle bydd cyfle i gyd-drafod a dysgu am arferion da wrth hyrwyddo ac annog y defnydd o'r Gymraeg. Bydd mwy o wybodaeth am gynhadledd a sut i gofrestru ar wefan y Comisiynydd.

4 Dysgu am ymddygiad defnyddwyr

Mesur cynnydd

- 4.1 Wrth fynd ati i hybu gwasanaethau Cymraeg, mae'n ddefnyddiol mesur i ba raddau mae'r ymyriadau'n gweithio, gan gasglu data lleol am effaith y gwahanol ymdrechion i gynyddu defnydd.
- 4.2 Un dull o wneud hyn yw sefydlu gwaelodlin:
 - casglu data ar y lefel o ddefnydd cyn yr ymyriad
 - ymyrryd (e.e. newid dyluniad y gwasanaeth, neu hyrwyddo'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol)
 - casglu data ar y lefel o ddefnydd ar ôl yr ymyriad.
- 4.3 Dull arall yw arbrofi dan reolaeth:
 - rhannu defnyddwyr yn ddau neu fwy o grwpiau;
 - peidio ag ymyrryd gydag un grŵp, ac ymyrryd gyda'r grwpiau eraill;
 - mesur a chymharu lefelau defnydd o fewn y gwahanol grwpiau.
- 4.4 Yn ogystal â data meintiol ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau Cymraeg, gallai fod yn ddefnyddiol gofyn i ddefnyddwyr am adborth ansoddol er mwyn sefydlu beth sy'n debygol o wneud iddynt newid eu harferion.
- 4.5 Gallai fod yn ddefnyddiol i sefydliadau osod targed ar gyfer cynyddu defnydd e.e. mae Dŵr Cymru yn anelu i gynyddu'r nifer o'u cwsmeriaid sy'n cofrestru i gael gohebiaeth Gymraeg gan y cwmni i 25,000.

Ymchwil i anghenion defnyddwyr

- 4.6 Ymddengys o'n gwaith ymchwil ni a'r profiadau rydym wedi ei arsylwi wrth gydweithio gyda sefydliadau, mai'r her fwyaf i sefydliadau yw newid ymddygiad defnyddwyr.
- 4.7 Cyn cyflwyno unrhyw newidiadau, mae'n hanfodol deall beth sy'n dylanwadu ar benderfyniadau unigolion wrth ddewis defnyddio'r Gymraeg o fewn gwasanaethau. Heb y wybodaeth hon, mae'n anodd cynllunio gwasanaethau sy'n annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
- 4.8 Dylai sefydliadau ystyried cynnal eu hymchwil eu hunain mewn sefyllfaoedd fel yma. Mae sawl mantais i wneud hyn ar lefel leol yn hytrach na chenedlaethol:
 - **Gwell gwerth am arian** – gellir cyfuno ymchwil i ymddygiad ieithyddol â gwaith ymchwil defnyddwyr ehangach.
 - **Defnyddio profiadau go iawn** – arsylwi ar ddefnyddwyr mewn sefyllfaoedd gwirioneddol, gan wneud newidiadau ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- **Canolbwyntio ar anghenion penodol** – addasu'r ymchwiliad i broffil defnyddwyr y sefydliad.

Syniadau ar gyfer dulliau syml a chost-effeithiol:

- **Arolwg byr ar-lein** – gofyn cwestiynau syml am iaith ddewisol a rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg.
- **Grwpiau ffocws** - trafod profiadau defnyddwyr a chasglu syniadau ar sut i wella.
- **Cysgodi defnyddwyr** – arsylwi ar sut mae pobl yn rhyngweithio â gwasanaethau, e.e. ar-lein neu mewn derbynfa.
- **Profi negeseuon** - dangos opsiynau iaith ar wefan neu ap a gofyn pa un sy'n fwy deniadol.
- **Defnyddio data presennol** - dadansoddi patrymau defnydd iaith mewn galwadau ffôn, e-byst neu ffurflenni.
- **Panel defnyddwyr Cymraeg** - creu grŵp o ddefnyddwyr i roi adborth rheolaidd ar wasanaethau.
- **Cymhellion i gymryd rhan** - e.e. talebau neu wobrau bach i annog pobl i gymryd rhan mewn arolwg neu brofiad.

Mynd ati i ymchwilio i arferion ac anghenion defnyddwyr

Grwpiau trafod

- Cynnull grwpiau o tua 6-12 o ddefnyddwyr
- Gwahoddiad agored neu dargedu grwpiau penodol o ddefnyddwyr
- Sgwrs anffurfiol strwythuredig wedi ei hwyluso gan aelod staff
- Holi am brofiadau a barn
- Gellir defnyddio promptiau neu adnoddau i gymell trafodaeth

Chwarae rôl

- Fel grwpiau trafod, ond gyda mwy o elfennau rhyngweithiol
- Creu senarios darparu gwasanaeth realistig
- Cael mynychwyr i ymddwyn fel y byddent yn gwneud yn naturiol yn y sefyllfaoedd hyn
- Adlewyrchu ar y chwarae rôl gyda'r mynychwyr

Arsylwi

- Cael mynediad at sefyllfaoedd darparu gwasanaeth go iawn, e.e. gwrando i mewn ar alwadau ffôn mewn canolfan gyswllt, neu gyswllt derbynfa
- Cofnodi ymddygiad defnyddwyr go iawn y gwasanaeth o ran dewis iaith, a pha ffactorau sy'n effeithio ar hynny

Cwestiynau uniongyrchol

- Cymell staff rheng flaen i holi cwestiynau penodol i gwsmeriaid go iawn, e.e. drwy ychwanegu cymal at sgriptiau darparu gwasanaeth
- Er enghraifft, gellir gofyn i ddefnyddwyr sy'n ffonio llinell ffôn Saesneg a ydynt yn siarad Cymraeg, ac os felly pam y gwnaethant ddewis defnyddio'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg

Arolwg defnyddwyr

- Mae nifer o sefydliadau'n holi barn defnyddwyr drwy arolygon, e.e. drwy banel trigolion, ac arolygon ar-lein cyffredinol / ar wasanaeth penodol
- Gellir defnyddio'r ymarferiadau hyn i gasglu gwybodaeth am arferion ac anghenion pobl o ran defnyddio gwasanaethau Cymraeg

Enghreifftiau o gwestiynau y gellir eu gofyn:

“Ydych chi’n cysylltu â ni yn Gymraeg? Os ddim, pam?”

“Ydych chi’n gwybod pa rai o’n gwasanaethau ni sydd ar gael yn Gymraeg?”

“Beth fyddai’n eich gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio’n gwasanaethau yn Gymraeg?”

Ymchwil meintiol

Mae’r dulliau a nodwyd yn yr adran flaenorol ar fesur cynnydd – sef sefydlu gwaelodlin a threial dan reolaeth – hefyd yn ffyrdd o ddysgu am arferion ac anghenion defnyddwyr

Maent yn ein galluogi i fesur sut mae ymddygiad pobl yn newid wrth i ni amrywio camau yn y broses o ddarparu gwasanaeth

Atodiad 1: cymhwyso fframwaith MINDSPACE i wasanaethau Cymraeg

Dylanwad	Dulliau o gymhwyso i hybu gwasanaethau Cymraeg
Negesydd (<i>Messenger</i>) Cawn ein dylanwadu'n drwm gan bwy sy'n cyfathrebu gwybodaeth	Mae'n bwysig fod negeseuon yn cael eu cyfleu gan rywun y mae pobl yn ymddiried ynddo. Gall nifer o ffactorau arwain at ymddiriedaeth, er enghraifft awdurdod, hoffter, arbenigedd neu empathi. Gall sefydliadau fanteisio ar hyn drwy gyfleu eu bod yn gwbl ymroddedig i ddarparu gwasanaethau Cymraeg – y sefydliad sydd yn y lle gorau i siarad ag awdurdod am ei wasanaethau ei hun. Gall hyn fod drwy gyfathrebu cyffredinol neu drwy annog pob aelod o staff i amlygu argaeledd gwasanaethau Cymraeg. Gallai sefydliadau hefyd ddefnyddio pobl y mae eraill yn ymddiried ynddynt neu'n uniaethu â nhw – modelau rôl, cyfoedion, neu bobl mewn sefyllfa debyg – er mwyn cyfleu negeseuon.
Cymhellion (<i>Incentives</i>) Caiff ein hymateb i gymhellion eu ffurfio gan 'shortcuts' meddyliol rhagweladwy, fel osgoi colledion	Gall 'colledion' i ddefnyddwyr gynnwys colli amser drwy oedi, neu gael eu trin yn llai ffafriol o ran canlyniad y broses. Felly mae angen rhoi sicrwydd i bobl fod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn hawdd, ac na fydd eu defnyddio'n arwain at unrhyw anfantais. Gallai sefydliadau ystyried defnyddio cymhellion cadarnhaol hefyd, er enghraifft nodi y bydd ceisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu prosesu'n gynt.
Normau (<i>Norms</i>) Cawn ein dylanwadu'n drwm gan beth mae pobl eraill yn ei wneud	Dylai sefydliadau gyfleu: - o bod darparu'r gwasanaeth Cymraeg yn rhywbeth arferol – nad yw defnyddio'r Gymraeg yn ddewis eithriadol y mae angen trefniadau arbennig ar ei gyfer. - o bod niferoedd cynyddol o bobl yn defnyddio'r Gymraeg, er enghraifft drwy roi gwybod am ystadegau sy'n dangos cynnydd neu drwy annog pobl i rannu'r ffaith eu bod yn defnyddio'r Gymraeg. - o mai defnyddio'r Gymraeg yw'r peth cymdeithasol-dderbyniol i'w wneud (e.e. drwy ddefnyddio gwên-luniau neu negeseuon cadarnhaol eraill ar gyfer yr opsiynau Cymraeg, neu roi'r Gymraeg mewn ffont neu leoliad mwy amlwg).
Dewisiadau diofyn (<i>Defaults</i>) Rydym yn mynd gyda llif dewisiadau sydd wedi eu gosod yn barod	I'r graddau y mae hynny'n bosib, dylai sefydliadau gynnig gwasanaethau yn Gymraeg heb i'r defnyddiwr orfod newid cwrs neu gymryd cam ychwanegol – hyd yn oed os yw hynny'n golygu bod defnyddwyr yn gorfod newid cwrs neu gymryd cam ychwanegol er mwyn defnyddio'r Saesneg.

Perthnasedd (<i>Salience</i>) Tynnir ein sylw at yr hyn sy'n ymddangos yn newydd ac yn berthnasol i ni	Mae'r ffaith fod sefydliadau wedi buddsoddi yn eu gwasanaethau Cymraeg yn ddiweddar yn creu cyfle i hyrwyddo'r gwelliant a welwyd. Bydd gan nifer o siaradwyr Cymraeg ragdybiaeth, ar sail profiadau blaenorol, nad yw gwasanaethau Cymraeg ar gael neu'n dda, ac felly gall sefydliadau fynd ati'n fwriadus i ddangos bod pethau wedi newid.
Cyflyru (<i>Priming</i>) Caiff yr hyn a wnawn ei effeithio'n aml gan giwiau isymwybodol	Mae pethau mân iawn yn dylanwadu ar asesiad pobl o'r tebygolrwydd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Er enghraifft, mae defnyddwyr wedi sôn am iaith cyfarchiad, iaith sgwrs staff y sefydliad, iaith cerddoriaeth wrth aros i'r ffôn gael ei ateb, arwyddion mewn derbynfeydd, pa iaith sy'n ymddangos gyntaf wrth dynnu llythyr allan o amlen, ac ati. Dylai sefydliadau roi sylw manwl iawn i brofiad defnyddwyr yn ei gyfanrwydd, gan sicrhau bod pob ciw gweledol a chlywedol yn arwain pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
Teimlad (<i>Affect</i>) Gall ein hymlyniadau emosiynol ffurfio beth rydym yn ei wneud	Gellir clymu negeseuon ynghylch defnyddio gwasanaethau Cymraeg wrth deimladau cadarnhaol pobl o ymlyniad at yr iaith. Gall yr iaith a ddefnyddir weithiau roi'r argraff i bobl nad yw'r gwasanaeth wedi ei greu ar gyfer 'pobl fel nhw', ac felly dylid newid ieithwedd a themau i wneud iddynt deimlo'n fwy cyfforddus.
Ymrwymadau (<i>Commitments</i>) Rydym eisiau cadw at yr addewidion rydyn ni'n eu gwneud yn gyhoeddus, ac ymddwyn tuag at bobl yn y ffordd maen nhw'n ymddwyn tuag atom ni	Gallai sefydliadau annog defnyddwyr i ymrwymo (i'r sefydliad, neu i'r naill a'r llall) i ddefnyddio'r Gymraeg. Gellir manteisio ar ddymuniad pobl i gydgyfnewid drwy gyfarch a dechrau cyswllt yn Gymraeg, gan wneud siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o barhau â'r cyswllt yn Gymraeg.
Ego Rydym yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n gwneud i ni deimlo'n well amdanom ein hunain	Gallai sefydliadau bwysleisio effaith gadarnhaol defnyddio gwasanaethau Cymraeg ar y defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol.

Atodiad 2: Templed cynllun hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

Amcan Disgrifiad cryno o'r hyn yr ydych am ei gyflawni	Camau gweithredu Nodwch y camau sydd angen eu rhoi ar waith	Amserlen Nodwch erbyn pryd mae angen cyflawni'r camau gweithredu	Pwy sydd yn gyfrifol? Nodwch y swyddogion / adrannau / timau fydd yn gyfrifol am weithredu'r camau	Targedau / Dangosyddion perfformiad Nodwch unrhyw ddata a gesglir a thargedau y byddwch yn gweithio tuag atynt



--	--	--	--	--





Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Swyddfa Caernarfon

Uned 2, Bloc

Doc Fictoria

Caernarfon

LL55 1TH

0345 6033 221

post@cyg-wlc.cymru

[@ComyGymraeg](https://www.comygymraeg.comisiynyddygymraeg.cymru)

[comisiynyddygymraeg.cymru](https://www.comisiynyddygymraeg.cymru)